

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis a H. Williams.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr N. Mackie (Cadeirydd).

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam (Is-Gadeirydd).

(a) Cyhoeddiad –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwrdd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.”

(b) Ymddiheuriad am Absenoldeb –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M. Michael (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd).

(c) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar gynnwys datganiad o ddiddordeb gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Mackie, ynghylch Eitem Agenda: 7 – Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2023/ 24. Natur ei buddiant oedd ei bod yn lesddeiliad eiddo a allai elwa o bosibl o arian grant mewn perthynas ag atgyweirio materion diogelwch tân i lesddeiliaid nad ydynt yn eu gwneud. Roedd hwn yn fuddiant personol, nid oedd yn rhagfarnu.

(d) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(e) Trosolwg a Diweddariad ar Wasanaethau Rheoliadol a Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y gwasanaeth a'i gynnydd tuag at gwblhau'r camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR). Cyflwynwyd hyn i'r Pwyllgor gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, ar y cyd â'i chydweithwyr, sef y tri Rheolwr Gweithredol ar gyfer y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, a'r Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg.

Amlinellwyd i'r Pwyllgor feysydd allweddol yr adroddiad, yn amrywio o faterion Adnoddau Dynol (absenoldeb salwch, recriwtio a chadw staff, ac ati), y sefyllfa ariannol, y rhagolygon a'r cyd-destun (gan gynnwys unrhyw danwariant a gorwariant perthnasol yn y gwasanaethau / categorïau perthnasol a rhai Bro Morgannwg fel rhan o'r bartneriaeth strategol hon gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd), perfformiad y Gwasanaeth Bwyd a Safonau Masnach (a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd), Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2024-25 a pherfformiad o ran llygredd sŵn ac aer (a oedd yn cynnwys set gadarnhaol o ffigurau perfformiad).

Cafodd y Cynllun Gweithredu cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ei amlinellu hefyd, yn ogystal â'r trefniadau gweithdrefnau arbennig sydd ar ddod ac ymyriadau iechyd y cyhoedd (h.y. erlyniadau am beidio â chydymffurfio mewn bariau Shisha, gorfodi rheoliadau gwelyau haul a mynd i'r afael ag achosion o'r darwden mewn siop barbwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal ag ymyriadau iechyd a diogelwch ynghylch diogelwch trydanol mewn safleoedd lletygarwch, ac ati), effaith Ymchwiliad Grenfell a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thai'r sector preifat.

Amlinellwyd gwaith y GRhR ynghylch iechyd a lles anifeiliaid i'r Pwyllgor, gan gynnwys cydnabyddiaeth gan y RSPCA o'i waith yn y maes hwn o dan dri chategori, yn ogystal â'i ymdrechion o ran monitro'r achosion o 'Firws y Tafod Glas (BTV)', sydd wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i rannau o Loegr yn unig, ond a oedd yn gofyn am wyliadwriaeth barhaus rhag ofn iddo ledaenu i rannau o Gymru.

Y meysydd eraill a gwmpesir oedd ymdrechion y GRhR i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a fêps, yn ogystal â gwneud y defnydd gorau o adnoddau (fel rhan o ganlyniadau'r archwiliad o ddau brif archwiliad).

Rhoddwyd cyflwyniad deul i'r Pwyllgor hefyd, gan ddau o Reolwyr Tîm y GRhR sy'n cwmpasu ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd, ynghylch Gorfodi Tai. Mynegodd y cyflwyniad eu gwaith amlochrog yn y maes hwn, yr heriau a wynebwyd ganddynt a'r cymorth y gellid ei gynnig i bobl yr effeithir arnynt, yn ogystal ag astudiaethau achos perthnasol, a manylion ynghylch gorfodi ac atal.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, gwnaed y sylwadau a'r ymholiadau canlynol gan Aelodau'r Pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd Lewis beth oedd y sefyllfa bresennol ar greu prentisiaethau Rheoleiddiol i sicrhau dyfodol y proffesiynau yn y tymor canolig a'r hirdymor i'r GRhR. Esboniwyd bod hwn wedi bod yn ymrwymiad hirdymor ac yn 'daith' i'r GRhR er mwyn bwrw ymlaen â hyn, a bu datblygiadau cadarnhaol yn

ddiweddar, gan gynnwys datblygu cymhwyster dynodedig (Diploma Lefel 4 mewn Cydymffurfiaeth Reoleiddiol) a chwblhau dogfen dempled y llwybr wedi hynny. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn credu bod trafodaethau'n digwydd bellach rhwng y sefydliad Medr newydd a darparwyr hyfforddiant ynglŷn â sut y byddai'r Brentisiaeth Reoleiddiol yn cael ei chyflwyno.

O ran ymholiad y Cynghorydd Drake ynghylch a oedd achosion o'r darwden a grybwyllir yn yr adroddiad yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr ar gynnydd, eglurwyd bod yr achosion hyn wedi'u cyfyngu i nifer fach o siopau barbwr sy'n lleol i'r ardal yn unig, yn ymwneud â math penodol o doriad gwallt a oedd yn cael ei ddarparu. Roedd y GRhR wedi cynnig cyngor ac arweiniad ar lanhau a diheintio offer torri gwallt yn briodol, gan olygu bod y sefyllfa bellach dan reolaeth lawn.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y GRhR a'r swyddogion a'r timau perthnasol am eu gwaith ar iechyd a lles anifeiliaid, gyda'r gydnabyddiaeth a'r gwobrau dilynol gan y RSPCA. Gofynnodd am y risg o achosion BTV yn lledaenu i Gymru, a'r ymateb oedd bod Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), yn ogystal â Chymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO) yn monitro'r sefyllfa a'u bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r GRhR a byddai cyfarfodydd pellach gyda'r cyrff perthnasol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn fuan. Gobeithiwyd y byddai'r prif ddull trosglwyddo (trwy wibed mân) yn cael eu niwtraleiddio wrth fynd i mewn i'r hydref ac yna'r gaeaf, lle mae potensial ar gyfer tymereddau oerach.

O ran ymholiad y Cadeirydd ynglŷn â'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth bwyd newydd, heb unrhyw gyllid ychwanegol na staff ar gael i helpu i roi'r rhain ar waith, eglurwyd y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfuno'r cyfrifoldebau newydd hyn gydag archwilio ac ailflaenoriaethu gweithgareddau presennol.

O ran ymholiad y Cadeirydd ar y cyflwyniad deuol ynghylch gorfodi tai, a nifer yr achosion mwy eithafol lle'r oedd angen cymryd camau gorfodi tai (celcio, diffyg atgyweirio, hylendid gwael, ac ati). Esboniwyd bod tua dau neu dri achos eithafol o'r fath yn cael eu trin y flwyddyn. Amlygodd hyn y ffaith nad oedd pob achos o'r fath mor eithafol ac y gellid ei ddatrys yn gynharach a thrwy dulliau atal. Roedd y swyddogion perthnasol wedi cael hyfforddiant arbenigol i ymgysylltu â phreswylwyr a allai fod yn profi problemau yn ymwneud â chelcio, ac ati, yn ogystal â chyfranogiad asiantaethau gwirfoddol eraill, ac Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Panel Hunanesgeuluso i gefnogi hefyd. Mewn llawer o achosion, roedd y dull hwn wedi bod yn llwyddiannus, ond roedd rhai pobl yn dal i barhau neu ail-ddechrau celcio ac ymddygiadau cysylltiedig eraill.

Dymunai'r Is-gadeirydd a'r Pwyllgor ganmol y GRhR ar y gwaith helaeth a heriol a wnaed ganddo ac i drosglwyddo diolch y Pwyllgor i'r timau dan sylw.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi a chytuno ar gynnwys yr adroddiad.

- (2) Bod Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2024-25 yn cael ei gymeradwyo.
- (3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2024-25, pe bai angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau o ran Clefydau Trosglwyddadwy.
- (3) Awdurdodi mân newidiadau, pe cyfyd yr angen, yn ystod oes y Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy, heb fod angen dod ag ef yn ôl i'r Cyd-Bwyllgor

(f) Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2024/25 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Reolwr Gweithredol y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, wybod i'r Pwyllgor am waith y GRhR mewn perthynas â chyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

Roedd dyletswydd ar Gynghorau partner y GRhR, a ddirprwywyd i'r Cydbwyllgor, i orfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990; Rheoliadau Rheolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol (Cymru) 2009 ac amrywiaeth eang o ddeddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid eraill gan gynnwys Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Oherwydd hyn, roedd yn ofynnol llunio Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd yn nodi'r trefniadau i gyflawni'r dyletswyddau hyn a Chynllun y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid i hysbysu preswylwyr, busnesau a rhanddeiliaid eraill yn rhanbarth o'r trefniadau yr oedd gan y Cynghorau ar waith ar hyn o bryd i reoleiddio diogelwch bwyd.

Yn y pen draw, roedd y Cynllun yno i ddisgrifio sut y byddai'r GRhR a'r Cynghorau partner yn sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd ac i leihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid fel rhan o hyn. Gwnaed hyn drwy raglen arolygu, delio â chwynion, rhoi cyngor ac addysg, cynnal ymarferion samplu a gorfodi, pan fo angen, yn ogystal â chynnal dull ar sail risg.

Amlygwyd yr heriau o ran gweithredu'r Cynllun yn llawn, megis bod y gwasanaeth yn gweithredu mewn diffyg, oherwydd y diffyg o 6.5 CALI sydd eu hangen i fodloni'r gofynion a roddir ar y gwasanaeth Diogelwch Bwyd a chyflawni'r rhaglen Diogelwch Bwyd lawn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chymryd rhan ym mhob arolwg gydag Awdurdodau Lleol eraill. Oherwydd hyn, defnyddiwyd contractwyr i helpu i lenwi'r bwloch hwn, gydag arian o swydd wag yn cael ei ddefnyddio i dalu am y rhain a thrwy hynny sicrhau bod y gofynion o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cael eu bodloni.

O ran perfformiad, roedd y flwyddyn flaenorol wedi bod yn gadarnhaol. Cliriwyd yr ôl-groniad o arolygiadau a oedd wedi dod i'r amlwg oherwydd COVID-19 a chafwyd nifer o erlyniadau llwyddiannus.

Amlygodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor y gwaith yr oedd swyddogion y GRhR wedi'i wneud i gyrraedd y lefel bresennol o arolygiadau yn dilyn effaith pandemig COVID-19.

Y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) Bod Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2024/25 yn cael ei gymeradwyo.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2024/25 pe bai angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn i'r Awdurdodau Lleol partner allu gosod eu Cynllun Gorfodi ac wedyn yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

(2) Galluogi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i ddiweddarau'r Cynllun pe bai unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod dan sylw.

(g) Adolygiad o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodaeth (CAT) –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, yn cynghori'r Cydbwyllgor o ddiweddariadau yn ymwneud â Pholisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir. Roedd y Polisi wedi bod ar waith ers 2016 i osod y safonau a fyddai'n cael eu cymhwyso wrth ymdrin â materion diffyg cydymffurfio â chyfraith diogelu'r cyhoedd. Cafodd y Polisi ei adolygu ddiwethaf yn 2023 i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Roedd Polisi diwygiedig drafft wedi'i baratoi i adlewyrchu meysydd gorfodi newydd ac i adlewyrchu'n llawn yr opsiynau cydymffurfio a gorfodi sydd ar gael yng nghydestun tai sector preifat, y ddau atodiad newydd oedd:

- Yr Atodiad 4 newydd, sy'n nodi'r ystod lawn o opsiynau gorfodi sydd ar gael wrth ddelio â diffyg cydymffurfio yn y sector rhentu preifat; a'r
- Atodiad 5 newydd, sy'n rhoi manylion am yr egwyddor a'r opsiynau sydd ar gael pan gymerwyd camau ffurfiol mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â Safonau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol.

Y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodi Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir diwygiedig a'r Atodiadau cysylltiedig, i'w defnyddio gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.
- (2) Bod mabwysiadu'r Polisi diwygiedig gan y Cynghorau priodol ar gyfer y swyddogaethau hynny a gyflawnir gan y Cydwasanaeth ar eu rhan yn cael ei argymhell a'i gymeradwyo.
- (3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud mân newidiadau gweinyddol a diweddariadau i'r Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodaeth diwygiedig unwaith y caiff ei weithredu, pe bai angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Polisi yn parhau i adlewyrchu cylch gorchwyl llawn y Gwasanaeth a Rennir a'i fod yn parhau'n gyfredol, yn berthnasol ac yn addas i'r diben.
- (2) Sicrhau bod y Polisi diwygiedig yn cael ei fabwysiadu gan bob un o'r tri Awdurdod Lleol partner.
- (3) Sicrhau yn ystod oes y Polisi diwygiedig (h.y. cyn ei adolygiad llawn nesaf), y gellir ymgorffori mân ddiweddariadau a diwygiadau heb fod angen gofyn am gymeradwyaeth y Cyd-Bwyllgor ar bob achlysur.